Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

# Adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.

OGL © Hawlfrain y Goron Mehefin 2019 WG38153 ISBN digidol 978-1-83876-582-8 ISBN argraffu 978-1-83876-583-5

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.**

O dan adran 12 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'), rhaid i Weinidogion Cymru, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, gyhoeddi adroddiad sy'n mynd i'r afael â'r canlynol:

- ✓ y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni amcanion y strategaeth genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (2016-2021)
- ✓ y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghymru (drwy gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol)
- ✓ rhagfynegiadau am dueddiadau tebygol yn y dyfodol ac unrhyw ddata dadansoddol eraill (os cânt eu cyhoeddi yn ystod cyfnod o 12 mis gan ddechrau ar ddyddiad etholiad cyffredinol)

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Gan nad yw'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn 12 mis i etholiadau diwethaf y Cynulliad, nid yw'n cynnwys rhagfynegiadau am dueddiadau tebygol ar gyfer 2019-2020.

**Noder:**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghymru drwy gyfeirio at y Dangosyddion Cenedlaethol.

Yn 2018, aethom ati ar y cyd â Chynghorwyr Cenedlaethol a rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddatblygu cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a fydd yn mesur cynnydd tuag at gyflawni dibenion y Ddeddf.

Daeth yr ymgynghoriad ar y Dangosyddion Cenedlaethol i ben ar 29 Mawrth 2019. Disgwyliwn i'r Dangosyddion Cenedlaethol, sy'n ymgorffori'r adborth a'r awgrymiadau a gasglwyd drwy'r ymarfer ymgynghori, gael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2019.

Gan nad yw'r Dangosyddion Cenedlaethol ar waith eto, defnyddiwyd amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021) i fesur cynnydd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad hwn egluro unrhyw ddiwygiadau i'r strategaeth.  Ni fu unrhyw ddiwygiadau.

**Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru.**

Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i herio agweddau atynt. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrchoedd a gwaith cyfathrebu y mae goroeswyr camdriniaeth wedi parhau i ddylanwadu'n gryf arnynt, ac mae wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid arbenigol.

Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr yn seiliedig ar ymgynghoriad ar opsiynau a ddaeth i ben ym mis Mai 2018. Rydym bellach yn cynnal prosiect peilot a fydd yn cynyddu ein dealltwriaeth o'r ffordd orau o weithio gyda grwpiau gwahanol o oroeswyr er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn fframwaith cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cynnal tri gweithdy i oroeswyr, rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn deall sut y gallai goroeswyr camdriniaeth gael eu cynnwys yn fwy yn y gwaith o lunio polisïau Llywodraeth Cymru, a gwaith dilynol. Bydd hefyd yn ceisio ymgysylltu â'r goroeswyr hynny nad ydym wedi llwyddo i'w cyrraedd drwy weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori blaenorol, gan gynnwys goroeswyr trais rhywiol, goroeswyr sy'n ddynion, goroeswyr hŷn, goroeswyr rhwng 18 a 24 oed, goroeswyr sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, goroeswyr sy'n perthyn i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, goroeswyr LGBTQ+, goroeswyr sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches a goroeswyr anabl. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2020.

**Cyflawniadau allweddol**

Ym mis Ebrill 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Paid Cadw'n Dawel', sef ymgyrch sy'n anelu at ddangos y gall ymyrraeth gadarnhaol gael effaith bwerus ar rywun sy'n profi trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar hyn o bryd, neu sydd wedi eu profi yn y gorffennol. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys ffilm lle roedd actorion yn lleisio geiriau goroeswyr trais neu gamdriniaeth.

Cafodd ffilm ymgyrch 'Paid Cadw'n Dawel' ei wylio 46,000 o weithiau ar Twitter a Facebook a chafwyd 24,528 o sesiynau ar wefan Byw Heb Ofn yn ystod cyfnod yr ymgyrch. Gwelwyd nifer y galwadau â llinell gymorth Byw Heb Ofn yn gan "bobl eraill sy'n pryderu" yn dyblu yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r papur opsiynau mewn perthynas â fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr ym mis Medi 2018. Roedd hwn yn nodi'r camau nesaf, gan gynnwys ymgysylltu ag ystod fwy amrywiol o oroeswyr.

Cynlluniwyd gweithgareddau Cyfathrebu Cymunedol er mwyn ehangu cyrhaeddiad ein hymgyrchoedd. Ymhlith y gweithgareddau roedd cynhadledd ar gyfer Prifysgolion ledled Cymru ar ymgyrch Paid Cadw'n Dawel; digwyddiad byw ar Facebook wedi'i dargedu at oroeswyr trais rhywiol sy'n ddynion; gwaith gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru (gweler Amcan 2 Sbotolau) a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth yn nigwyddiad Cynnau Canhwyllau Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol a amlinellodd drefniadau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal ymgyrchoedd cenedlaethol a chyflawni gwaith cyfathrebu ehangach ar drais yn

erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Datblygwyd hyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau dull mwy cydlynol, hirdymor o gyflawni gwaith ymgysylltu a chyfathrebu. Nod y fframwaith oedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a newid normau, gwerthoedd, credoau, agweddau, ymddygiadau ac arferion cymdeithasol mewn perthynas â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cynhaliwyd digwyddiad panel arbenigwyr byw ar Facebook ym mis Rhagfyr 2018. Fe'i cynhaliwyd yn ystod yr 16 Diwrnod o Weithredu ac i ddathlu Diwrnod Rhuban Gwyn, a gwahoddwyd cwestiynau gan randdeiliaid a'r cyhoedd. Cafodd y digwyddiad ei wylio mwy na 1,400 o weithiau, gan gyrraedd cyfanswm o 3,072 o bobl.

Ym mis Ionawr 2019, lansiwyd ymgyrch 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn' gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt, AC.

Aethpwyd ati i gynllunio dau gam nesaf ymgyrch Rheolaeth ym mis Mawrth, gyda gweithdai i ddarparwyr arbenigol ym maes trais rhywiol a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

**Sbotolau ar: Ymgyrch Gyfathrebu Genedlaethol Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn**

Mewn partneriaeth â'r grŵp Cyfathrebu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a goroeswyr, aethom ati i ddatblygu ein hymgyrchoedd cyfathrebu diweddaraf sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o Reolaeth drwy Orfodaeth. Lansiwyd yr ymgyrch ar sianeli teledu a digidol ym mis Ionawr 2019.

Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at natur lechwraidd, gronnol a chyfrwys rheolaeth drwy orfodaeth ac yn annog dioddefwyr/goroeswyr i gydnabod bod y rheolaeth drwy orfodaeth y maent yn ei phrofi yn anghywir ac yn ffurf ar gam-drin.

Hyd yma, mae ffilmiau'r ymgyrch wedi cael eu gwylio fwy na 120,000 o weithiau ar Facebook, Twitter ac You Tube. Hefyd, llwyddodd yr ymgyrch i ddenu nifer sylweddol o ddilynwyr a defnyddwyr newydd i wefan Byw Heb Ofn, yn ogystal â thrafodaeth ac adborth ar-lein bywiog. Anogwyd y rhai a wyliodd yr ymgyrch i ymuno â'r drafodaeth gan ddefnyddio'r hashnodau #thisiscontrol a #rheolaeth yw hyn.

Daeth mwy na 50 o randdeiliaid a goroeswyr i'r digwyddiad lansio ym mis Ionawr 2019. Ymhlith y siaradwyr roedd Luke Hart, y cafodd ei fam a'i chwaer eu lladd gan ei dad, ynghyd â goroeswyr eraill a siaradodd am eu profiadau o reolaeth drwy orfodaeth.

Adborth

*Mae'r hysbyseb hon yn wych ac mae'n tynnu sylw at bopeth y mae angen i bobl fod yn ymwybodol ohono. Gall pobl sy'n ceisio eich rheoli drwy orfodaeth wneud i chi deimlo'n ddiwerth, ac mae pawb yn werth mwy na hynny.*

*Braf gweld hysbysebion @BywHebOfn @Llywodraeth Cymru ar newyddion @SkySports*

*Mae Luke a Ryan Hart @CoCoAwareness yn parhau i fod yn arloeswyr gwych wrth godi ymwybyddiaeth o #RheolaethDrwyOrfodaeth. Fel dioddefwyr, eu lleisiau nhw yw'r rhai y mae angen i ni wrando arnynt er mwyn atal y math hwn o gam-drin.*

*Cyflwyniadau dewr, torcalonnus a phersonol tu hwnt gan @cocoawareness a goroeswyr eraill am effeithiau rheolaeth drwy orfodaeth yn pwysleisio pwysigrwydd ymgyrch newydd #RheolaethYwHyn.*

**Y Camau Nesaf**

Bydd gwaith ymgyrchu ychwanegol newydd yn lansio yn 2019-2020 gyda thri cham arall a fydd yn canolbwyntio ar reolaeth a grwpiau amrywiol; rheolaeth a thrais, trais rhywiol a cham-drin rhywiol; a rheolaeth o fewn profiadau pobl ifanc. Bydd goroeswyr yn parhau i gael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r ymgyrchoedd hyn.

Bydd y gwaith i ddatblygu fframwaith ymgysylltu â goroeswyr cynaliadwy yn parhau yn 2019. Disgwylir i banel (neu baneli) goroeswyr peilot cael eu cynnull yn mis Medi 2019.

Caiff y Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol ei ddiweddaru ar ddiwedd 2019 i gynnwys gwybodaeth am yr ymgyrchoedd sydd i ddod.

**Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.**

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu llesiant, eu cyrhaeddiad addysgol, eu cydberthnasau a theulu a chyfoedion a'u gallu i fwynhau cydberthnasau iach, hapus a pharchus, nawr ac yn y dyfodol. Mae codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o gydraddoldeb, parch a chydsyniad yn hollbwysig er mwyn rhoi diwedd i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae Amcan 2 yn rhoi pwyslais cryf ar addysg a chodi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r broses o gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb yn helpu i gyflawni'r amcan hwn. Rydym am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar addysg o ansawdd uchel sy'n briodol i'w gam datblygu ac sy'n ymateb i'w anghenion a'i brofiadau.

Mae ymgyrch "Dyma Fi" Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i fod yn berthnasol i blant a phobl ifanc fel adnodd defnyddiol i archwilio normau a stereoteipiau ar sail rhyw.

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer prosiect Sbectrwm Hafan Cymru, sy'n gweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. Mae prosiect hwn yn hyrwyddo pwysigrwydd cydberthnasau iach ac yn codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod. Mae Sbectrwm hefyd yn darparu hyfforddiant i staff a llywodraethwyr ysgolion ar ddeall

effaith cam-drin domestig ar blentyn ac mae'n codi ymwybyddiaeth drwy edrych ar ddull ysgol gyfan o fynd i'r afael â cham-drin domestig.

**Cyflawniadau allweddol**

Cynhaliwyd 2,529 o sesiynau drwy raglen Sbectrwm Hafan Cymru yn ystod 2018-2019. Cefnogwyd cyfanswm o 31,761 o fuddiolwyr yn ystod blwyddyn ariannol 2018-2019.

Rydym wedi diweddaru'r canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn dilyn adolygiad ac argymhellion y Grŵp Arbenigwyr ACRh, y cytunwyd arnynt gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Mai 2018.

Cyhoeddwyd y canllawiau diwygiedig ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm presennol yng Nghymru ar gyfer ymgynghoriad ym mis Chwefror 2019. Mae'n cynnwys amrywiaeth o bynciau, er enghraifft cydberthnasau iach a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
Nid yw'r canllawiau'n achub y blaen ar y cwricwlwm newydd, felly mae'n canolbwyntio ar ddull gweithredu yn hytrach nag ar gwricwlwm, gan annog ysgolion i gynllunio darpariaeth fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan sy'n diwallu anghenion pob dysgwr. Bydd yr hyblygrwydd hwn rhoi'r ymreolaeth i weithwyr proffesiynol ystyried materion fel Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Priodas dan Orfod a Thrais ar sail Anrhydedd. Hefyd, lluniwyd y canllawiau i gyd-fynd ag ethos y cwricwlwm newydd a byddant yn helpu ysgolion i ddechrau symud tuag at gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, sy'n seiliedig ar anghenion eu dysgwyr.

Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar y Cwricwlwm ac Asesu ar 28 Ionawr 2019 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos, a ddaeth i ben ar 25 Mawrth 2019. Rhoddodd y Papur Gwyn – 'Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol' gyfle i randdeiliaid fynegi eu barn ar faterion fel hawl rhieni i dynnu eu plant o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol, ac, yn yr un modd, i ddiwallu anghenion eu dysgwyr.

| **Sbotolau ar: Gweithgarwch Cyfathrebu Cymunedol i Godi Ymwybyddiaeth ymhlith Plant a Phobl Ifanc: Dyma Fi** |
|---|
| Er mwyn ehangu cyrhaeddiad ein hymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol ymhellach, aeth Prifysgol Caerdydd ati ym mis Hydref 2018 i archwilio negeseuon ymgyrch Dyma Fi gyda phlant a phobl ifanc. Nod yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o stereoteipio ar sail rhyw fel achos a chanlyniad trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'i herio. Canlyniad gwaith Prifysgol Caerdydd fu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â mwy na 270 o blant a phobl ifanc mewn gweithdai a chynadleddau; datblygu astudiaeth achos "Beth os #DymaFi?" ac, ym mis Mawrth, cyhoeddi'r adnodd Agenda Cynradd sy'n cynnwys deunyddiau a gweithgareddau ymgyrch Dyma Fi.<br>http://agenda.wales/<br><br>Ymhlith yr adborth a gafwyd gan blant a phobl ifanc roedd:<br><br>*Dysgais fod bechgyn yn gallu gwneud yr un pethau â merched a bod merched yn* |

*gallu gwneud yr un pethau â bechgyn. Rwy'n gwybod fy mod i'n gallu gwneud pethau merchetaidd heb gael fy meirniadu.*

*Roedd yn braf gweld y ffordd rydych chi'n dangos eich gwaith ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy gelf oherwydd gwnes gamfarnu pobl y tro cyntaf i mi glywed am stereoteipiau ar sail rhyw ond rwy'n sylweddoli nawr ein bod ni'n gallu bod pwy bynnag rydyn ni am ei fod.*

*Dyma ein cyfle i godi ein llais a sefyll yn erbyn Stereoteipio*

*#DymaFi #RwynDwluArno*

**Y Camau Nesaf**

Fel rhan o'i gwaith ymgyrchu ar y thema rheolaeth yn ystod 2019-2020, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ymgyrch genedlaethol ar reolaeth a phrofiadau pobl ifanc o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r ymgyrch hon yn cael ei datblygu ar y cyd â gwasanaethau arbenigol, a chaiff ei threialu gyda phobl ifanc.

Caiff Addysg Rhyw a Chydberthynas ei hailenwi'n Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Daw hyn yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd a gyflwynir yn raddol o fis Medi 2022 i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed a chaiff canllawiau diwygiedig eu cyhoeddi ar gyfer y cwricwlwm presennol.

Cyhoeddir Cwricwlwm drafft i Gymru 2022 ar 30 Ebrill am adborth. Bydd cyfnod helaeth o ymgysylltu yn ystod y cyfnod adborth, a ddaw i ben ar 19 Gorffennaf, er mwyn mireinio'r cwricwlwm drafft yn barod i'w gyflwyno o fis Medi 2022 ymlaen.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda CCAUC i gryfhau'r broses o wella arferion diogelu a gwydnwch, gan gefnogi mentrau staff a myfyrwyr sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, aflonyddu a ffactorau andwyol eraill sy'n effeithio ar iechyd meddwl. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu Canllaw Arfer Da sy'n benodol i'r sector.

**Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr.**

Mae'r amcan hwn yn cydnabod na allwn fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol yn effeithiol heb weithio gyda chyflawnwyr i fynd i'r afael â'u hymddygiad a'i newid. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan dîm bach dan arweiniad seicolegydd fforensig sydd ar secondiad o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru.

**Cyflawniadau allweddol**

Sefydlwyd rhwydwaith ar gyfer gwasanaethau cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gynnar yn 2018, sy'n cynnal digwyddiadau rhannu arferion rheolaidd yng Ngogledd a De Cymru bob chwarter. Bwriedir i'r

digwyddiadau ddarparu amgylchedd dysgu lle gall y sector rannu profiadau ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd er mwyn cynnal asesiad cyflym o dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. Cyhoeddwyd yr asesiad ym mis Rhagfyr 2018.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Lansiwyd y Safonau ym mis Rhagfyr 2018. Maent yn pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob gwasanaeth i gyflawnwyr yng Nghymru.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith i ddatblygu canllawiau arfer da drafft ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithio gyda chyflawnwyr. Bydd y canllawiau'n cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i'w galluogi i gefnogi gwaith gyda chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cyhoeddwyd y canllawiau drafft ar gyfer sylwadau drwy arolwg ar-lein yn hwyr y llynedd, ac mae'r adborth dilynol wedi cael ei gasglu ac yn cael ei ddefnyddio i lunio'r canllawiau terfynol, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r dogfennau terfynol ym mis Mehefin 2019.

Lansiwyd y fframwaith er mwyn cefnogi newid cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru 2018-2023 ym mis Ebrill 2018. Llywodraeth Cymru sy'n arwain ffrwd waith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol y fframwaith. Sefydlwyd Grŵp Strategol y Fframwaith yn 2018 ac yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019, cymerodd yr aelodau ran mewn gweithdy datrys problemau lle nodwyd materion yn ymwneud â'r broses gomisiynu.

Dyrannwyd cyllid mewn cydweithrediad â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru i weithgarwch ymyrryd sy'n canolbwyntio ar y teulu ac awdurdodau lleol sy'n cefnogi gwaith cwmpasu, ymchwil a threfniadau ariannu gwasanaethau a datblygu dulliau ymyrryd yn gynnar/atal presennol.

Dyrannwyd grant i Brifysgol Abertawe er mwyn cefnogi ymchwil a hyfforddiant ar stelcio ac aflonyddu mewn cydweithrediad â chronfa Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth, sy'n rhan o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda byrddau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol er mwyn sicrhau bod eu strategaethau'n adlewyrchu gwaith diogel ac effeithiol gyda chyflawnwyr.

Cynhaliwyd adolygiad o Brosiect DRIVE ym Merthyr, sy'n gweithio gyda chyflawnwyr risg uchel neu fynych, yn gynnar ym mis Ionawr, a chyhoeddwyd adroddiad. Rhoddir argymhellion yn ymwneud ag arfer, asesu risg a rheoli risg ar waith ledled timau DRIVE yn genedlaethol. Mae'r cymorth a gynigir i DRIVE yng Nghaerdydd a'r gwaith ar asesiadau risg a phrosesau atgyfeirio yn parhau.

Mae myfyrwyr meistr wedi cael eu lleoli ar draws nifer o ddarparwyr gwasanaethau trydydd sector gan ysgogi prosiectau ymchwil i wasanaethau i gyflawnwyr a ariennir.

| **Sbotolau ar: Polisi cyflawnwyr. Lansio safonau** |
|---|
| Cynhaliwyd digwyddiad lansio ar gyfer Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru i Gyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br><br>Roedd dros 80 o gynrychiolwyr o sefydliadau statudol ac anstatudol sy'n ymwneud â chomisiynu, gwerthuso a/neu ddarparu gwasanaethau i gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru yn bresennol yn y digwyddiad lansio.<br><br>Mae'r Safonau'n cefnogi amcan y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i sicrhau 'mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr', ac maent yn pwysleisio pwysigrwydd arferion diogel ac effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Bwriedir i'r Safonau gael eu defnyddio gan **gomisiynwyr** a **gwasanaethau** wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu, darparu, gwerthuso a chomisiynu (neu ddatgomisiynu) gwasanaethau i gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Maent yn pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob gwasanaeth i gyflawnwyr (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i raglenni ar gyfer unigolion a grwpiau) sy'n anelu at fynd i'r afael ag agweddau/meddylfryd/teimladau/ymddygiadau sylfaenol cyflawnwyr o'r fath.<br><br>Datblygwyd y safonau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Relate Cymru, Parch, Cymorth i Ferched Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Gwasanaeth Trais yn y Cartref Calan ac Atal y Fro.<br><br>Ymhlith y siaradwyr yn y digwyddiad roedd Rachael Eagles, Prif Swyddog Gweithredol Gwasanaeth Trais yn y Cartref Calan, elusen trais yn y cartref de Cymru, Yasmin Khan, Ymgynghorydd Cenedlaethol, Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip a Dr Cerys Miles, Penneth Polisi Cyflawnwyr Llywodraeth Cymru.<br><br>Adborth<br><br>*Mae @wg_loh newydd lansio'r Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Gwaith pwysig i dorri'r cylch a sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf diogel yn Ewrop.* |

### Y Camau Nesaf

Daeth ymgynghoriad ar ddogfen gyfarwyddyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n dod i gysylltiad â chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben ym mis Chwefror 2019. Caiff y ddogfen ei chwblhau a'i rhannu erbyn mis Mehefin 2019. Bydd yn helpu gwasanaethau i nodi cyflawnwyr a'u cyfeirio at wasanaethau arbenigol cyn gynted â phosibl.

Mae gweithgarwch grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i drefnu ar gyfer haf 2019 a fydd yn canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth a gallu'r sector comisiynu drwy gyfres o weithdai ar draws y rhanbarthau yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Gomisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal**

Mae ymyrryd yn gynnar yn hollbwysig er mwyn nodi a lleihau'r niwed a achosir gan drais neu gamdriniaeth. Mae dull arloesol Llywodraeth Cymru o ymyrryd yn gynnar wedi cynnwys parhau i gyflwyno “Gofyn a Gweithredu” yn raddol, sef rhaglen hyfforddi a pholisi sy'n uwchsgilio gweithwyr allweddol gwasanaethau cyhoeddus i gynnal ymchwiliad wedi'i dargedu er mwyn nodi achosion o gam-drin.

Mae nodi achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cyn gynted â phosibl a darparu ymateb priodol i leihau effaith a niwed yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcan y strategaeth genedlaethol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal. Er mwyn sicrhau iechyd a lles hirdymor ein cenedl, rhaid i ni barhau i ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'u hatal.

Ein nod yw cyflwyno Gofyn a Gweithredu yn genedlaethol erbyn 2021.

**Cyflawniadau allweddol**

Dyfarnwyd contract newydd i Cymorth i Ferched Cymru ym mis Rhagfyr 2018 er mwyn cynnal hyfforddiant ar Gofyn a Gweithredu, sy'n cynnwys y gofyniad i ddiwygio'r hyfforddiant yng ngoleuni'r adborth a geir. Mae'r contract hwn yn cynnwys datblygu a chyflwyno dau gwrs "hyfforddi'r hyfforddwr" penodol a dau becyn hyfforddi a ddarperir i'r hyfforddwyr hyfforddedig i'w cyflwyno'n lleol.

Sefydlwyd grŵp llywio sy'n cynnwys gwasanaethau arbenigol, mabwysiadwyr cynnar a chynrychiolwyr goroeswyr er mwyn monitro'r broses o gyflwyno'r rhaglen, mynd i'r afael ag unrhyw faterion a wynebir gan y rhanbarthau cyn gynted â phosibl a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol. Mae'r grŵp hwn wedi cwrdd ddwywaith ers i'r contract newydd gael ei ddyfarnu, a hynny ym mis Rhagfyr 2018 a mis Chwefror 2019.

Mae Gofyn a Gweithredu yn parhau i gael ei darparu yn y pum safle peilot/mabwysiadwr cynnar ac mae cyfarfodydd cynllunio wedi'u cynnal er mwyn cyflwyno'r hyfforddiant yn ardaloedd blaenoriaeth 2019, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru, ym mis Ebrill.

Mae mwy na 1,500 o weithwyr wedi’u hyfforddi I ‘Ofyn a Gweithredu’ y flwyddyn’ma (grŵp 2 a 3). Felly, mae mwy na 3,300 o weithwyr wedi'u hyfforddi i 'Ofyn a Gweithredu' hyd yn hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadeirio'r grŵp arwain ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd a Phriodas dan Orfod ar y cyd â Bawso a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Cyfarfu'r grŵp hwn ym mis Tachwedd 2018 a chytunodd

ar logo cenedlaethol ar gyfer Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod i'w hyrwyddo mewn digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a'i ddefnyddio wrth gyfeirio unigolion at wasanaethau. Hefyd, cefnogodd y grŵp hwn glinig Llesiant Menywod arbenigol cyntaf Cymru, a lansiwyd ym mis Mai 2018.

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref ym mis Mawrth 2019.

| **Sbotolau ar: Digwyddiad Dysgu ar Orchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod Mawrth 2019** |
| --- |
| Gweithiodd Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref i gynnal digwyddiad codi ymwybyddiaeth a hyfforddi cenedlaethol a fu'n gymorth i nodi a deall trais ar sail anrhydedd. Tynnodd sylw at ffyrdd y gall ymyrryd yn gynnar ac atal helpu i atal niwed mewn perthynas ag anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod.<br><br>Mae Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn waharddebau sifil sy'n cynnig ffordd gyfreithiol o amddiffyn a diogelu dioddefwyr a darpar ddioddefwyr rhag yr arferion niweidiol hyn. Mae'r broses o gael gorchymyn yn syml iawn, a gall eu heffeithiau gael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywyd yr unigolyn i'w amddiffyn. Dylid ystyried y gorchmynion hyn mewn cynlluniau diogelu lle bynnag y bo'n bosibl.<br><br>Anelwyd y digwyddiad hyfforddi at arbenigwyr, ymarferwyr, athrawon a chymunedau. Roedd yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol ynghyd â thrafodaeth ymarferol ar orchmynion amddiffyn a'r ffordd y gellir eu defnyddio ac astudiaethau achos i'w hystyried. Estynnwyd gwahoddiad i sefydliadau cymorth lleol rwydweithio â gweithwyr proffesiynol (er mwyn sicrhau yr ystyriwyd dull gweithredu cyfannol). Roedd 144 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad.<br><br>Adborth:<br><br>*Roedd hwn yn ddiwrnod hyfforddi addysgiadol iawn a gafodd ei gyflwyno'n dda. Roeddwn yn gwerthfawrogi'n arbennig y profiadau personol a rannwyd gan ddwy fenyw ysbrydoledig – maen nhw'n gwneud gwaith gwych wrth godi ymwybyddiaeth drwy eu teithiau personol eu hunain.*<br><br>*Roedd y digwyddiad cyfan yn ddefnyddiol iawn. Diolch – bydd hwn yn sicr yn fy helpu i gyflawni fy rôl yn y dyfodol a, gobeithio, yn fy helpu i gyfrannu at y gwaith o sicrhau newid.*<br><br>*... digwyddiad agored a hygyrch a oedd ar gael i gynifer o weithwyr proffesiynol, a neges sylfaenol y dydd – bod gan bob un ohonom y potensial i wneud newidiadau, bod yn gyfrifol a bod yn ymwybodol.* |

## Y Camau Nesaf

Cyhoeddwyd canllawiau drafft ar hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' ym mis Tachwedd 2017. Caiff canllawiau statudol eu cyhoeddi erbyn diwedd 2019-2020.

## Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Un o'r prif ddulliau o gyflawni Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw canllawiau Statudol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, a gyhoeddwyd o dan adran 15 o'r Ddeddf ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; y cyntaf o'i fath yn y DU. Mae'r Fframwaith yn cynnig hyfforddiant cymesur er mwyn cryfhau'r ymateb a ddarperir ledled Cymru i'r rhai sy'n profi achosion o gam-drin domestig neu drais rhywiol ac mae'n nodi uchelgais a disgwyliadau clir ar gyfer safonau hyfforddi, canlyniadau a chynnwys ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Am y tro cyntaf yng Nghymru, o ganlyniad i'r Fframwaith, mae'r awdurdodau perthnasol yn sicrhau bod *pob* aelod o staff wedi'i hyfforddi i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## Cyflawniadau allweddol

Hyd yma, mae mwy na 158,500 o weithwyr proffesiynol yng Nghymru wedi cael hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae hwn yn gynnydd o 23,000 ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn.

Ym mis Mai 2018, cyflwynwyd yr adroddiadau blynyddol cyntaf sy'n ofynnol gan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd adborth unigol i bob Awdurdod Perthnasol ym mis Hydref 2018.

Fel rhan o Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth Grŵp 6 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, cyhoeddwyd tair ffilm ar wefan Byw Heb Ofn a YouTube ar ymgysylltu â goroeswyr; y cysylltiadau rhwng diogelu a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a llais goroeswyr. Hyd yma, mae'r ffilmiau wedi'u gwylio 445 o weithiau.

Ym mis Hydref 2018, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract i gonsortiwm Safelives a Hafan Cymru er mwyn darparu hyfforddiant i ddarparwyr arbenigol, staff rheng flaen a'u rheolwyr. Cwblhaodd 24 o ddysgwyr y cwrs Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn ogystal â 24 o reolwyr gwasanaethau pellach yn 2018-19.

Mae Prosiect LIMITLESS Gwasanaethau Cam-drin Domestig Threshold yn brosiect gwerth £1.5 miliwn a ariennir gan gyllid Ewropeaidd sy'n cynnig cymorth wedi'i deilwra i ddefnyddwyr y gwasanaeth, p'un a ydynt yn profi cam-drin domestig ar hyn o bryd, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Un o dair elfen y rhaglen yw'r cymhwyster gwirfoddolwr i'r rhai hynny sy'n ymgymryd â swyddi gwirfoddol yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol. Bydd y

gwirfoddolwyr hyn yn cynnwys goroeswyr achosion o gam-drin.  Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyngor a chymorth i gefnogi'r elfen hon a chaiff y cymhwyster gwirfoddolwr ei dreialu o fis Medi 2019.

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract i Cymorth i Ferched Cymru er mwyn cynnal Cynhadledd Genedlaethol ar Arweinyddiaeth ar gyfer y Sector Cyhoeddus ym mis Mawrth 2019, gan adeiladu ar waith y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth a'r adnoddau ar gyfer Grŵp 6 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

**Sbotolau ar: Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Fusnes Pawb: Cynhadledd Genedlaethol ar Arweinyddiaeth ar gyfer y Sector Cyhoeddus**

Daeth 70 o Arweinwyr y Sector Cyhoeddus o bob cwr o Gymru ynghyd ym mis Mawrth 2019 i ystyried sut y gallai eu sefydliadau sicrhau bod ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhan o'u busnes craidd, ac yn ganolog i'r hyn a wnânt. Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fusnes pawb – #BusnesPawb. Roedd hyn yn adeiladu ar waith y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth a'r adnoddau ar gyfer Grŵp 6 (Arweinwyr y Sector Cyhoeddus) y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Nododd y gynhadledd gyfrifoldebau arwain o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.Cyflwynodd achos dros greu dull gweithlu cyfan o nodi ac ymateb yn gynnar, ac o ymgorffori gwaith atal trais yn erbyn menywod ym musnes craidd pob sefydliad. Rhannodd arweinwyr ac uwch-swyddogion enghreifftiau o'r ffordd y gellid newid diwylliant ein gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn sicrhau na chaiff trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol eu goddef yng Nghymru mwyach.

Clywodd y rhai a oedd yn bresennol gan amrywiaeth o arbenigwyr ac arweinwyr y sector, gan gynnwys Nazir Afzal, Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais ar sail Rhyw i Lywodraeth Cymru; Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Jane Hutt AC, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip. Hefyd, rhannodd goroeswyr achosion o drais a cham-drin o brosiect SEEdS Cymorth i Ferched Cymru eu profiadau personol o ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, gan nodi sut roedd hyn wedi effeithio arnyn nhw a'u sefyllfa.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol nodi tri maes pwnc/tair blaenoriaeth o'r gynhadledd y gallent eu rhoi ar waith yn eu gweithle, a byddai gofyn iddynt roi adborth ar gynnydd y rhain yn 2019-20.

Adborth

*Digwyddiad addysgiadol iawn, rhai cyflwyniadau emosiynol ac ysbrydoledig am leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig yng Nghymru.*

*Cynhadledd wych heddiw. Areithiau arbennig ac emosiynol.*

*Yma yn y gynhadledd ar gyfer uwch-arweinwyr y sector cyhoeddus yn gwrando ar straeon dewr goroeswyr a'r rhesymau pam y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin*

*domestig a thrais rhywiol yn fusnes pawb.*

**Y Camau Nesaf**

Yn ystod 2019-2020, byddwn yn diweddaru'r hyfforddiant e-ddysgu ac yn ei ychwanegu at lwyfan dysgu digidol Hwb er mwyn sicrhau ei fod yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg.

**Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.**

Gall darparu cymorth i'r rhai y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt fod yn gymhleth o ganlyniad i brofiadau ac anghenion gwahanol. Bydd y canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau bod gwasanaeth cyhoeddus ac arbenigol cyson, sy'n seiliedig ar anghenion, o ansawdd uchel ar gael i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin o'r fath yng Nghymru, ble bynnag y maent yn byw.

Mae'r canllawiau'n cydnabod bod mabwysiadu dull cydweithredol yn hollbwysig er mwyn sicrhau darpariaeth gydgysylltiedig. Felly, bwriedir i'r canllawiau helpu comisiynwyr o awdurdodau perthnasol, adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r system cyfiawnder troseddol i gomisiynu unrhyw wasanaethau cysylltiedig eraill wrth weithio i gyflawni dibenion y Ddeddf.

Mae'r partneriaethau rhanbarthol wedi parhau i ddatblygu eu seilwaith yn barod ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhanbarthol.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r broses gomisiynu ranbarthol gydgysylltiedig a bodloni gofynion y canllawiau statudol ar gomisiynu yn 2019, darparwyr cyllid i'r partneriaethau rhanbarthol. Hwylusodd hyn waith i gefnogi pobl ifanc mewn perthynas ag ymgysylltu â chyflawnwyr, cymorth i gyflawnwyr, a helpu i gyflwyno llwybr i wasanaethau integredig a gwneud rhagor o waith i ddadansoddi anghenion lleol.

Mae'r grant refeniw ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sy'n werth £5m, yn ariannu sefydliadau arbenigol awdurdodau lleol a'r trydydd sector i'w helpu i gyflawni Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r grant hefyd yn cefnogi'r gwaith o gydgysylltu gwasanaethau mewn modd strategol ar lefel leol; gwaith hyfforddi ac atal, gan gynnwys addysg ar gydberthnasau iach mewn ysgolion.

Rydym wedi parhau i ariannu llinell gymorth Cymru gyfan Byw Heb Ofn, sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth cyfrinachol o ansawdd uchel i holl oroeswyr a dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys grwpiau sy'n dioddef pob un o'r mathau o drais a gwmpesir gan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn ogystal â'r rhai sy'n wynebu perygl o fod yn dioddef trais o'r fath, gan gynnwys trais ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys ymyrryd mewn argyfwng yn ogystal â gwybodaeth a chyngor cyffredinol.

**Cyflawniadau allweddol**

Cyhoeddodd Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd eu strategaethau lleol ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mis Mai 2018, yn dilyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru.

Dyfarnwyd £1,268,810 drwy Raglen Grant Cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn 2018-2019. Prif ddiben y Rhaglen hon oedd caffael neu gynnal a chadw/uwchraddio asedau sefydlog fel tai a chyfarpar ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r grant wedi cefnogi prosiectau fel prynu adeiladau; gwella diogelwch eiddo; gwella adeiladau fel mynediad i'r anabl; ardaloedd aros dynodedig er mwyn gwahanu dioddefwyr a chyflawnwyr; gwaith adnewyddu ac atgyweirio cyffredinol a phrynu iPads ar gyfer gweithwyr cymorth er mwyn eu galluogi i gyrraedd dioddefwyr mewn ardaloedd gwledig.

Mae Gwasanaethau Trais Rhywiol Arbenigol ledled Cymru wedi nodi cynnydd yn y galw am eu gwasanaeth, ac, yn sgil hynny, gynnydd mewn amseroedd aros am wasanaethau cwnsela neu gymorth. Dyrannwyd £154,940 o gyllid er mwyn cefnogi rhestrau aros i wasanaethau arbenigol ym mis Tachwedd 2018. Cafodd dros 2,000 o fuddiolwyr ledled Cymru gymorth i gael gafael ar wasanaethau trais rhywiol arbenigol drwy'r cyllid hwn. Bu'r cyllid hefyd yn fodd i gynnal gweithdai i gefnogi pobl ar restrau aros, cynnal sesiynau grŵp, darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth glinigol i gwnselwyr a phrynu adnoddau therapiwtig.

Eleni, comisiynwyd dau adolygiad ar wahân o wasanaethau trais rhywiol a'r ddarpariaeth ar gyfer ffoaduriaid gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Bydd yr adolygiadau yn nodi gwersi o arferion rhyngwladol ac yn eu cyd-destunoli i Gymru.

Ailffurfiwyd y Grŵp Cyllid Cynaliadwy ym mis Medi 2018 a bydd yn mynd ar drywydd y gwaith o lunio Fframwaith Cyllid Cynaliadwy ac yn helpu i roi'r Canllawiau Statudol ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru ar waith, yn ogystal â chynghori ar hynny.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar gomisiynu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol yng Nghymru. Cyflwynwyd y canllawiau gerbron y Cynulliad ym mis Chwefror 2019.

Yn ystod 2018-19, cysylltwyd â llinell gymorth Byw Heb Ofn 31,981 o weithiau drwy alwadau ffôn, negeseuon e-bost, gwe-sgwrsio neu negeseuon testun.

Hefyd, cynhaliwyd asesiad gwerthusadwyedd o linell gymorth Byw Heb Ofn er mwyn llywio'r gwaith o lunio manyleb y tendr ar gyfer y contract nesaf.

| **Sbotolau ar: Y grŵp cyllid cynaliadwy** |
| --- |
| Yn 2017, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid er mwyn datblygu model cyllid cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol. Helpodd y grŵp hwn i ddatblygu'r canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sy'n adnodd allweddol er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy.<br><br>Yn 2018, penodwyd Yasmin Khan, un o'n Cynghorwyr Cenedlaethol, yn Gadeirydd ar y grŵp. Mae'r aelodau wedi dod i ddealltwriaeth gytûn o ran yr hyn a olygir wrth "cyllid cynaliadwy" ac wedi gweithio i ddatblygu egwyddorion cyllid cynaliadwy a fydd yn berthnasol i gyllid grant ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn 2019-20.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r grŵp hwn, yn ogystal ag ar draws Llywodraeth Cymru, er mwyn parhau i ddatblygu model cyllid cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol i ategu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth. |

**Y Camau Nesaf**

Bydd y canllawiau ar Gomisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn dod i rym ym mis Mai 2019. Nod y canllawiau hyn yw hyrwyddo gwaith comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr ledled Cymru.

Mae rhanbarthau gwahanol ar gamau gwahanol o'r llwybr i ranbartholi'r gwasanaethau hyn yn llwyr. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd da yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Byddwn yn caniatáu dull gweithredu hyblyg yn ystod y flwyddyn gyntaf ond byddwn yn monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau y cynhelir momentwm.

Bydd adolygiadau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cynnwys gweithdai i randdeiliaid a goroeswyr a bydd yn llywio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r polisi ar ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig. Bydd hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth nesaf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Dyletswyddau o dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Ym mis Gorffennaf 2018, o dan Adran 3 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, cyflwynwyd Fframwaith Cyflawni Trawslywodraethol y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2020 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hwn yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol.

Ym mis Medi 2018, cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cyntaf y Cynghorwyr Cenedlaethol, sef *Translating a National Framework into Sustainable Solutions,* gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 22 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyflwynwyd Cynllun Blynyddol 2019-2020 y Cynghorwyr Cenedlaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 22 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Ym mis Rhagfyr 2018, o dan Adran 11 o'r Ddeddf, cyhoeddwyd y Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer ymgynghoriad yn dilyn cyfres o weithdai i randdeiliaid er mwyn nodi'r dangosyddion perthnasol a'r ffynonellau data. Bydd swyddogion yn adolygu'r ymatebion ac yn llunio Ymateb Llywodraeth Cymru, a byddant yn cyhoeddi cyfres derfynol o Ddangosyddion Cenedlaethol yn yr haf.

Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn llywio ac yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghylch polisi a darparu gwasanaethau yn unol â diben y Ddeddf, a byddant yn seiliedig ar y tair elfen, sef atal, amddiffyn a chefnogi.

Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddwyd Canllawiau Statudol ar Gomisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru yng Nghymru, o dan Adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Ymchwil, adnoddau a data sy'n effeithio ar y gwaith o lunio polisïau ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.**

**Defnyddiwyd yr ymchwil ganlynol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr Cenedlaethol peilot yn 2018-2019.**


Cyfranogaeth Cymru (2011) Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Ar gael yn: https://participation.cymru/wp-content/uploads/2017/02/PC-National-Principles-Poster3.pdf [Cyrchwyd: 18 Tachwedd 2018]

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO). How to Build a Theory of Change. Ar gael yn: https://knowhow.ncvo.org.uk/how-to/how-to-build-a-theory-of-change# [Cyrchwyd: 18 Tachwedd 2018]

Cymru Ifanc (2016) Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc. Ar gael yn: http://www.youngwales.wales/images/ParticipationStandards_Poster_9.pdf [Cyrchwyd: 18 Tachwedd 2018]

Harries, E.; Hodgson, L. a Noble, J. (2014) *Creating your Theory of Change – NPC's Practical Guide*. Llundain: New Philanthropy Capital

Hills, D., 2010. *Logic mapping: hints and tips for better transport evaluations,* Llundain: The Tavistock Institute.

Kellogg Foundation, 2004. *Logic Model Development Guide,* Michigan: Kellogg Foundation.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021), Caerdydd:* Llywodraeth Cymru.

NEF Consulting (2018) Theory of Change. Ar gael yn: https://www.nefconsulting.com/our-services/evaluation-impact-assessment/prove-and-improve-toolkits/theory-of-change/ [Cyrchwyd: 18 Tachwedd 2018]


**Defnyddiwyd yr adnoddau canlynol i lywio'r gwaith cyfathrebu ac ymgyrchu yn 2018-2019**

Ble mae'r llinell? (Rheolaeth drwy orfodaeth) https://llyw.cymru/byw-heb-ofn?campaigns%2Fwhere-is-the-line=&_ga=2.107323210.939796287.1560241956-1082865930.1549278497

Byw Heb Ofn: Mae angen parch (cydberthynas iach a myfyrwyr) https://llyw.cymru/byw-heb-ofn-ymgyrch-mae-angen-parch

Does it still haunt you? (Trais rhywiol) https://llyw.cymru/byw-heb-ofn?campaigns%2Fdoes-it-still-haunt-you=&_ga=2.145020924.939796287.1560241956-1082865930.1549278497

Ffilm goroeswr ar reolaeth drwy orfodaeth: https://www.dropbox.com/s/vqbtcngj6j3xoss/%23Lisa%27s%20Story%20-%20Gwent%20Police%20Training%202018.mp4?dl=0

https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/controlling-or-coercive-behaviour-intimate-or-family-relationship

https://www.youtube.com/user/ThisIsAbuse

Ymgyrch Disrespect NoBody https://www.disrespectnobody.co.uk/

Ymgyrch This is Abuse https://www.campaignlive.co.uk/article/home-office-this-abuse-campaign-appeal-teens-hollyoaks-characters/1223928

**Defnyddiwyd yr ymchwil ganlynol i lywio gwaith cyfathrebu ac ymgyrchu yn 2018-2019**

Adewuyi, E. ac Adefemi, K., (2016) 'Behaviour change communication using social media: a review'. *International Journal of Communication and Health*

Ellsberg, M. (2015) 'Violence Against Women and Girls 1: Prevention of Violence Against Women and Girls – What Does the Evidence Say?', *The Lancet*

Gadomski, A. M. et al. (2001) 'Impact of a rural domestic violence prevention campaign'. *Rural Health Practice Applications*

Flood, M. (2011) 'Involving Men in Efforts to End Violence Against Women', *Men and Masculinities*

Flood, M. a Pease, B. (2009) 'Factors influencing attitudes to violence against women', Trauma, Violence and Abuse, Cyf. 10 (2), tudalennau 125-142

Gusé, E. M., (2008) 'Toward a Theory of Entertainment Persuasion: Explaining the Persuasive Effects of Entertainment-Education Messages, *Communication Theory*, Cyf. 18, tudalennau 407-425

Happer, C. a Philo, G. (2013) 'The role of the media in the construction of public belief and social change', *Journal of Social and Political Psychology*, Cyf. 1 (1), tudalennau 321-336

Keller, S., Wilkinson, T., ac Otjen, A.J. (2010) 'Unintended effects of a domestic violence campaign', *American Journal of Advertising*, Cyf. 39 (4), tudalennau 53-67

Levy Paluck, E. a Ball, L. (2010) Social norms marketing aimed at gender based violence: a literature review and critical assessment, International Rescue Committee

McLaren, F. (2009) 'The Campaign for Action on Family Violence. Effective Social Marketing: complex issues and innovative practice'

Murdough, C. (2009) ‘Social Media Measurement: It’s not Impossible’, *Journal of International Advertising*

Noar, S. M., (2006) ‘A 10-Year Retrospective of Research in Health Mass Media Campaigns: Where Do We Go From Here?’, *Journal of Health Communications*

Potter, S.J. (2008) ‘Incorporating Evaluation into Media Campaign Design’, *National Online Resource Center on Violence Against Women*

Potter, S.J. et al. (2009) ‘Empowering Bystanders to Prevent Campus Violence against Women: A Preliminary Evaluation of a Poster Campaign’, Violence Against Women, Cyf. 15 (1), tudalennau 106-121

Randolph, W. a Viswanath, K. (2004) Lessons learned from public health mass media campaigns in a crowded media world’. *Annual Review of Public Health*, Cyf 25, tudalennau 419-37

Snyder, L.B. (2006) ‘Health communication campaigns and their impact on behavior’. *Society for Nutrition Education*

Wakefield, M.A., Loken, B. a Homik, R.C. (2010) ‘The use of mass media campaigns to change health behaviour’. *The Lancet*, Cyf. 376, tudalennau 1261-1271

West, J. J., (2013) ‘Doing More Harm than Good: Negative Health Effects of Intimate Partner Violence Campaigns’, *Health Marketing Quarterly*, Cyf. 30, tudalennau 195-205

Wray. R. et al. (2017) ‘Preventing Domestic Violence in the African American Community: Assessing the Impact of a Dramatic Radio Serial’, *Journal of Health Communication*

**Defnyddiwyd yr ymchwil ganlynol i lywio gwaith mewn perthynas â pholisi ar gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:**

Akoensi, T. D., Koehler, J. A., Lösel, F., a Humphreys, D. K. (2013). Domestic violence perpetrator programs in Europe, part ii: A systematic review of the state of evidence. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology, 57(10), 1206–1225. https://doi.org/10.1177/0306624X12468110*

Arias, E., Arce, R., a Vilariño, M. (2013). Batterer intervention programmes: A meta-analytic review of effectiveness. *Psychosocial Intervention,* 22(2), 153–160. https://doi.org/10.5093/in2013a18

Babcock, J., Armenti, N., Cannon, C., Lauve-Moon, K., Buttell, F., Ferreira, R., … Solano, I. *(2016). Domestic Violence Perpetrator Programs: A Proposal for Evidence-Based Standards in the United States. Partner Abuse. https://doi.org/10.1891/1946-6560.7.4.355*

Bates, E. A., Graham-Kevan, N., Bolam, L. T., a Thornton, A. J. V. (2017). *A Review of Domestic Violence Perpetrator Programs in the United Kingdom. Partner Abuse, 8(1). https://doi.org/10.1891/1946-6560.8.1.3*

Berry, V., Stanley, N., Radford, L., Mccarry, M., a Larkins, C*. (2014). Adeiladu Ymatebion Effeithiol: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru. Ymchwil Gymdeithasol Llywpodraeth Genedlaethol.*

Cannon, C., Hamel, J., Buttell, F., a Ferreira, R. J. *(2016). A survey of domestic violence perpetrator programs in the United States and Canada: Findings and implications for policy and intervention. Partner Abuse, 7(3), 226–276. https://doi.org/http://dx.doi.org/10.1891/1946-6560.7.3.226*

Dutton, D. G. (2012). The Prevention of Intimate Partner Violence. *Prevention Science, 13(4), 395–397. https://doi.org/10.1007/s11121-012-0306-1*

Eckhardt, C. I., Murphy, C. M., Whitaker, D. J., Sprunger, J., Dykstra, R., ac Woodard, K. *(2013). The Effectiveness of Intervention Programs for Perpetrators and Victims of Intimate Partner Violence. Partner Abuse. https://doi.org/10.1891/1946-6560.4.2.196*

Ellsberg, M., Arango, D. J., Morton, M., Gennari, F., Kiplesund, S., Contreras, M., ac Watts, C*. (2015). Prevention of violence against women and girls: What does the evidence say? The Lancet, 385(9977), 1555–1566. https://doi.org/10.1016/S0140-6736(14)61703-7*

Feder, L., Niolon, P. H., Campbell, J., Wallinder, J., Nelson, R., a Larrouy, H. *(2011). The need for experimental methodology in intimate partner violence: Finding programs that effectively prevent IPV. Violence Against Women, 17(3), 340–358. https://doi.org/10.1177/1077801211398620*

Fundar, C. (2015). *Beyond Domestic Violence Laws: What Else Makes Responses To Domestic Violence Effective, (Mai).*

Hamby, S. (2014). Intimate Partner and Sexual Violence Research: Scientific Progress, Scientific Challenges, and Gender. *Trauma, Violence, and Abuse, 15(3), 149–158. https://doi.org/10.1177/1524838014520723*

Hamilton, L., Koehler, J. A., a Lösel, F. A. (2013). Domestic Violence Perpetrator Programs in Europe, *Part I. International Journal of Offender* Therapy and Comparative Criminology. https://doi.org/10.1177/0306624X12469506

Humphreys, D. K., ac Akoensi, T. D. (n.d.*). Strengthening Transnational Approaches to Reducing Reoffending Final Report.*

Kelly ac Westmarland. *(n.d.). Project Mirabal - Domestic Violence Perpetrator Programmes.*

Langhinrichsen-Rohling, J., a Capaldi, D. M*. (2012). Clearly We've Only Just Begun: Developing Effective Prevention Programs for Intimate Partner Violence. Prevention Science, 13(4), 410–414. https://doi.org/10.1007/s11121-012-0310-5*

Lilley-Walker, S.-J., Hester, M., a Turner, W. (n.d.). *Evaluation of European Domestic Violence Perpetrator Programmes: Toward a Model for Designing and Reporting Evaluations Related to Perpetrator Treatment Interventions. International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology. https://doi.org/10.1177/0306624X16673853*

Lösel, F. A., Koehler, J. A., Hamilton, L., Humphreys, D. K., ac Akoensi, T. D. *(2011). Strengthening Transnational Approaches to Reducing Reoffending Final Report, 1–158. Retrieved from http://www.cepprobation.org/uploaded_files/Rep STARR ENG.pdf*

McLaughlin, K. D. (2017). *Ethical Considerations for Clinicians Treating Victims and Perpetrators of Intimate Partner Violence. Ethics and Behavior, 27(1), 43–52. https://doi.org/10.1080/10508422.2016.1185012*

Murray, C., Ong, I., Smith, P. H., Foreman, T., Akers, W., Flasch, P., … Dooley, R. *(2015). Linking research and practice to address domestic and sexual violence: lessons learned from a statewide conference with researchers and practitioners. Journal of Aggression, Conflict and Peace Research, 7(2), 76–87. https://doi.org/10.1108/JACPR-07-2014-0129*

*Robinson, A. L. (2017). Serial Domestic Abuse in Wales: An Exploratory Study Into its Definition, Prevalence, Correlates, and Management. Victims and Offenders, 12(5), 643–662. https://doi.org/10.1080/15564886.2016.1187691*

Stover, C. S., Meadows, A. L., a Kaufman, J. (2009). *Interventions for intimate partner violence: Review and implications for evidence-based practice. Professional Psychology: Research and Practice, 40(3), 223–233. https://doi.org/10.1037/a0012718*

Velonis, A. J., Cheff, R., Finn, D., Davloor, W., ac O'Campo, P*. (2016). Searching for the mechanisms of change: A protocol for a realist review of batterer treatment programmes. BMJ Open, 6(4), 1–9. https://doi.org/10.1136/bmjopen-2015-010173*

Vigurs, C., Schucan-Bird, K., Quy, K., a Gough, D. (n.d.). *WHAT WORKS: CRIME REDUCTION SYSTEMATIC REVIEW SERIES No 5. THE IMPACT OF DOMESTIC VIOLENCE PERPETRATOR PROGRAMMES ON VICTIM AND CRIMINAL JUSTICE OUTCOMES: A SYSTEMATIC REVIEW OF REVIEWS OF RESEARCH EVIDENCE.*

Woodhouse, B. J., a Dempsey, N. *(2016). Domestic violence in England and Wales, (6337).*